AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Grwpiau Cefnogi Menywod | 1984-1985

amgueddfa.cymru/dysgu/
museum.wales/learn/

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Cyflwyniad |

***Cyfres o ddelweddau ar thema neu bwnc penodol yw'r adnodd 'Banc Lluniau'.***

*Yn y set hon mae delweddau'n ymwneud â Grwpiau Cefnogi Menywod yn ystod Streic y Glowyr yng Nghymru, rhwng 1984-85. Mae'r delweddau wedi'u dewis o gasgliad Amgueddfa Cymru.*

*Mae'r cydraniad yn ddigon uchel i ddefnyddio'r delweddau fel adnoddau bwrdd gwyn. Yn y nodiadau athrawon mae gwybodaeth gefndir, dehongliad o'r delweddau, deilliannau dysgu posib a manylion darllen pellach ac adnoddau ar-lein.*

*Gall yr adnodd gael ei lawrlwytho ac nid yw ar gyfer unrhyw oedran na cham cynnydd penodol. Rydyn ni'n annog defnyddwyr i ddarllen y nodiadau a golygu'r adnoddau i weddu orau i'w hanghenion.*

## Gwybodaeth Gefndir |

*Erbyn 1979 roedd 235,000 o ddynion yn gweithio mewn 223 o byllau glo ar draws y DU. Erbyn 1983, roedd hyn wedi gostwng i 182,000 mewn 175 o byllau. Roedd dirwasgiad diwedd y saithdegau a dechrau'r wythdegau hefyd wedi niweidio diwydiannau eraill yng Nghymru. Felly, roedd diweithdra yn y De eisoes dros 13% – llawer uwch na chyfartaledd y DU.*

*Gyda'r bygythiad i gau'r pyllau, teimlai llawer o lowyr a'u teuluoedd nad oedd ganddyn nhw ddewis ond ymladd dros yr hawl i weithio, a dyfodol eu cymunedau, drwy fynd ar streic.*

*Byddai'r streic yn para o fis Mawrth 1984 tan fis Mawrth 1985. Dros y cyfnod hwn byddai glowyr gyda dau o blant wedi derbyn £11 yr wythnos o Fudd-dal Atodol (dylsai fod*

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Background Information |

*yn uwch ond gwnaeth y llywodraeth yn siŵr ei fod yn is na'r arfer). Byddai undebau yn talu rhywfaint o arian, a rhoddion hefyd yn help.*

*Wrth i'r streic barhau, dechreuodd y glowyr a'u teuluoedd wynebu caledi gwirioneddol gan fod y dynion (oedd ar gyflogau gyda'r gorau yn y wlad am weithwyr llaw) wedi bod heb ddim incwm ers y dechrau. Dyma'r caledi economaidd, â'r ofn y byddai polisi'r llywodraeth Geidwadol yn dinistrio eu cymunedau, yn gorfodi llawer o fenywod i weithredu. Roedd traddodiad cryf ar draws meysydd glo'r De o fenywod yn cefnogi'r dynion yn ystod gweithredu diwydiannol, ond y tro hwn aeth y menywod gam ymhellach.*

*Dyma nhw'n codi arian, sefydlu canolfannau bwyd, darparu dillad a rhedeg ceginau cawl. Roedden nhw hefyd yn annerch cyfarfodydd cyhoeddus a ralïau, yn trefnu ffeiriau sborion, ac yn ysgrifennu taflenni a phamffledi. Safodd llawer o'r menywod ochr yn ochr â'r dynion ar linellau piced, ac yng Nglofa Cynheidre dyma nhw hyd yn oed yn meddiannu'r baddondai pen pwll.*

*Roedd rhai o ddynion y cymunedau glofaol yn gweld grym y menywod fel bygythiad. Gwrthododd rhai canghennau Undeb y Glowyr ganiatáu menywod ar y llinell biced i ddechrau.*

*Rhoddodd y streic fwy o hyder i lawer o fenywod, ac aeth rhai ymlaen i sefydlu busnesau neu i astudio yn y brifysgol. Yng Nghwm Dulais sefydlwyd y gweithdy 'DOVE' – adnodd addysg a hyfforddiant cymunedol – gan aelodau'r grŵp cefnogi menywod lleol.*

*Ar yr orymdaith yn ôl i'r gwaith ym mis Mawrth 1985, cerddodd y menywod ochr yn ochr â'r dynion.*

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Grwpiau Cefnogi Menywod | 1984-1985

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

Sleidiau 1-2 | Mae'r delweddau hyn yn dangos llinellau piced mewn glofeydd amrywiol, ynghyd â rhesi o heddlu yn eu hwynebu. Pwrpas rhain yw dangos sut oedd hi ar reng flaen y streic. Er bod llawer o fenywod wedi sefyll ar y llinellau piced, yr effaith fwyaf a gawsant oedd i ffwrdd o'r gwrthdaro dwys hwn rhwng yr heddlu a glowyr tu allan i lofeydd.

***Heddlu yng Nglofa Abercynon, 1984***
***Heddlu yn Ffatri Phurnacite Abercwmboi, 1984***

*Sleidiau 4-7 | Sefydlwyd Grwpiau Cefnogi Menywod ar draws meysydd glo y De. Y bwriad gwreiddiol oedd darparu bwyd a dillad, ond cyn hir roedd y grwpiau'n ymuno â gorymdeithiau a ralïau i gefnogi'r streic. Tyfodd pob un ar wahân ond yn y pen draw dyma nhw'n nhw'n dod at ei gilydd yn un grym cefnogol, amlwg.*
*Sleid 7, rhestr o ralïau i godi ymwybyddiaeth, sy'n enghraifft wych o sut y daeth Grwpiau Cefnogi Menywod yn rhan o'r frwydr yn erbyn cau'r pyllau a'u haelodau yn gorymdeithio ochr yn ochr yn rheolaidd.*

***Grŵp Cefnogi Menywod Cwm Rhymni yn gorymdeithio yn Llundain, 1984***
***Menywod a phlant Cymru yn protestio'n heddychlon, o daflen 'The Enemy Within', 1984***
***Menywod a dynion yn protestio gyda'i gilydd, o daflen 'The Enemy Within', 1984***
***Taflen yn hysbysebu Rali Gydsafiad ledled Cymru, 1984***

*Sleid 8 | Mae'r ddelwedd hon yn enghraifft o'r deunydd roedd menywod yn ei gynhyrchu i gefnogi a galarnadu'r digwyddiadau yn ystod y streic.*

***Cylchlythyr Plaid Gomiwnyddol Treherbert, 1984***

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Grwpiau Cefnogi Menywod | 1984-1985

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*Sleidiau 9-11 | Mae'r delweddau hyn yn amlygu'r gwaith anhygoel a wnaeth Grwpiau Cefnogi Menywod i sicrhau bod pobl yn cael bwyd. Bydden nhw'n casglu rhoddion bwyd, yn rheoli canolfannau dosbarthu bwyd, yn creu pecynnau bwyd, ac yn gyffredinol yn cydlynu pob elfen o'r rhan hanfodol hon. Nid oedd yn hawdd cymryd y rôl hon, ond heb wybodaeth y menywod hyn oedd yn gofalu am deuluoedd y glowyr a sicrhau eu bod yn cael eu bwydo, byddai'r streic wedi dod i ben ar unwaith.*

***Binny Jones o Flaenau Ffestiniog yn casglu rhoddion bwyd i Lofa Abernant, 1985***
***'Aros am barseli bwyd' – gwragedd glowyr yng Nghanolfan Dosbarthu Bwyd Williamstown, 1984***
***'Y ffatri ffa pob' – Canolfan Dosbarthu Bwyd Blaenrhondda, 1985***

*Sleidiau 12-14 | Byddai Grwpiau Cefnogi Menywod yn trefnu digwyddiadau codi arian, ond yn bwysicach fyth, bydden nhw'n trefnu cyfarfodydd cymunedol a phartïon i ddod â rhywfaint o normalrwydd am gyfnod. Mae'r delweddau hyn yn dangos y partïon Nadolig a'r merched a'u trefnodd nhw.*

***Parti plant Grŵp Cefnogi Menywod Banwen, 1984***
***Parti plant Grŵp Cefnogi Menywod Banwen, 1984***
***Aelodau o Grŵp Cefnogi Menywod Banwen yn ystod Streic y Glowyr, 1984***

*Sleidiau 15-16 | Ym mis Mawrth 1985 daeth y streic i ben, a mynd yn ôl i'r gwaith yn beth anodd i lawer o lowyr a theuluoedd oedd yn teimlo eu bod wedi'u trechu. Gorymdeithiodd y Grwpiau Cefnogi Menywod i'r pyllau ochr yn ochr â'r glowyr er mwyn dangos eu cefnogaeth.*

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Grwpiau Cefnogi Menywod | 1984-1985

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

***'Yr orymdaith yn ôl i'r gwaith' – Grŵp Cefnogi Menywod y Maerdy, 1985***
***Grŵp Cefnogi Menywod Cwm Rhymni yn gorymdeithio gyda'r glowyr ar eu taith yn ôl i'r gwaith, 1985***

*Sleid 17 | Cynhyrchwyd bathodynnau i ddangos cefnogaeth drwy gydol y streic. Dyma fathodyn o 1985 a wisgwyd gan aelodau o Grŵp Cefnogi Menywod.*

***Bathodyn Grwpiau Cefnogi Menywod, 1985***

*Sleidiau 18-19 | Ar ôl y streic roedd llawer o bobl eisiau dathlu cyfraniad y Grwpiau Cefnogi Menywod. Mae'r delweddau'n dangos cwpan a bathodyn coffa a gynhyrchwyd i nodi 20 mlynedd a 30 mlynedd ers streic y glowyr.*

***Cwpan Women in Action Miners' Strike 1984-85, 2004***
***Medal i nodi 30 Mlynedd ers Streic y Glowyr 1984-1985, 2014***

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Grwpiau Cefnogi Menywod | 1984-1985

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Geirfa allweddol |

**Streic**
*Casgliad o weithwyr sy'n trefnu fel protest i wrthod gweithio, fel arfer i geisio cael consesiwn neu gonsesiynau gan eu cyflogwr.*

**Glofa**
*Pwll glo.*

**Pwll drifft**
*Pwll glo gyda mynediad drwy dwnnel, nid siafft.*

**Flying Pickets**
*Streicwyr sy'n cael eu hanfon i bicedu pyllau ymhell o'u man gwaith arferol.*

**NCB**
*Y Bwrdd Glo Cenedlaethol.*

**NUM**
*Undeb Cenedlaethol y Glowyr.*

**Llinell biced**
*Gweithwyr sy'n ymgasglu y tu allan i fan gwaith i berswadio gweithwyr eraill i gefnogi eu hachos.*

**Sgabs**
*Gweler 'Torwyr streic'.*

**Torwyr streic**
*Gweithwyr sy'n gwrthod streicio neu sy'n dychwelyd i'r gwaith. Yn cael eu hadnabod fel 'sgabs' gan streicwyr, a 'glowyr sy'n gweithio' neu 'glowyr sy'n dychwelyd' gan y cyfryngau a'r Bwrdd Glo Cenedlaethol.*

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Grwpiau Cefnogi Menywod | 1984-1985

# Grwpiau Cefnogi Menywod, 1984-1985 | Nodiadau canllaw

## Darllen pellach |


*WCCPL & NUM, Striking Back (1985), Gwasg Salesbury*

*Michael Thomas, The Death of an Industry (2004), Colben System Pte. Ltd.*

*John Davies, Hanes Cymru (1990), Penguin*

*D. Gareth Evans, A History of Wales 1906-2000 (2000), Gwasg Prifysgol Cymru*

*W. Gareth Evans, The Role and Changing Status of Women in the Twentieth Century (2000), ACCAC*

*Deirdre Beddoe, Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth Century Wales (2000), Gwasg Prifysgol Cymru*

*David Egan, Coal Society: A History of the South Wales Mining Valleys 1840-1980 (1987), Gomer*

*John Gorman, Banner Bright – An Illustrated History of Trade Union Banners (1986), Scorpion Publishing*


## Gwefannau |

*Casgliadau ac Ymchwil Amgueddfa Cymru*

*https://amgueddfa.cymru/casgliadau/*

*Casgliad y Werin*

*https://www.casgliadywerin.cymru/*

*Casgliad Maes Glo De Cymru, Prifysgol Abertawe*

*http://www.agor.org.uk/cwm/*